# Ffocws ar Bennu Ffiniau Graddau

**Pan fydd y marcio wedi'i gwblhau, mae'r broses ddyfarnu yn dechrau, lle y pennir ffiniau graddau ar gyfer arholiadau, gwaith cwrs ac asesiadau dan reolaeth. Nod y broses ddyfarnu yw sicrhau y cynhelir safonau o flwyddyn i flwyddyn. Mae byrddau arholi yn defnyddio pwyllgor dyfarnu, yn cynnwys grŵp o uwch arholwyr sy'n arbenigwyr yn y pwnc hwnnw, i gynnal y broses ddyfarnu.**

## Pam bod ffiniau graddau yn newid?

Mae byrddau arholi bob amser yn anelu at ddatblygu papurau cwestiynau gyda'r un lefel o anhawster o flwyddyn i flwyddyn. Yn amlwg byddai'n annheg i fyfyrwyr gael gradd is oherwydd eu bod wedi sefyll papur mwy anodd. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn (bron yn amhosibl) cynhyrchu papurau arholiad sydd yr un mor anodd â'i gilydd. O ganlyniad, ym mhob cyfres arholiadau, pennir ffiniau graddau newydd ar gyfer pob papur arholiad, gwaith cwrs neu asesiad dan reolaeth. Dyma pam y gall ffiniau graddau fod yn wahanol bob blwyddyn ac ar gyfer pob arholiad.

## Pennu ffiniau graddau

Ffiniau graddau yw'r marc lleiaf sydd ei angen ar gyfer gradd benodol. Er enghraifft, mae ffin C o 50 yn golygu bod angen 50 o farciau arnoch i gael gradd C. Pennir ffiniau graddau ar ôl i'r arholiadau gael eu heistedd, ac er o bosib bod gan bob cyfres arholiadau ffiniau graddau tebyg, maent yn annhebygol o fod yn union yr un peth bob tro.

Unwaith y bydd yr holl farcio wedi'i gwblhau, bydd y pwyllgor dyfarnu yn cwrdd i argymell ble i bennu ffiniau graddau eleni. Mae angen i'r pwyllgor dyfarnu gydbwyso ystod o dystiolaeth wrth benderfynu ble i argymell y ffiniau graddau. Yn arbennig, mae'n rhaid i'r argymhellion ystyried cydbwysedd tystiolaeth ystadegol a barn arholwyr am waith myfyrwyr.

Mae'r pwyllgor yn ceisio dod o hyd i'r marc ar gyfer gwaith eleni sy'n adlewyrchu orau y safon y pennwyd ffin graddau y llynedd arni. I wneud hyn mae'n edrych ar waith myfyrwyr o eleni ar y ffin graddau arfaethedig ac yn ei gymharu â gwaith myfyrwyr y llynedd a oedd ar y ffin graddau. I wneud cymhariaeth deg, mae angen i'r pwyllgor wybod a yw'r grŵp o fyfyrwyr a wnaeth sefyll yr arholiad eleni yn debyg i'r grŵp a wnaeth ei sefyll y llynedd yn gyffredinol. Mae'n defnyddio ystadegau am nodweddion y ddau grŵp o fyfyrwyr i wneud hyn, megis oed a pherfformiad mewn yr arholiadau. Mae'r pwyllgor dyfarnu hefyd yn derbyn gwybodaeth ystadegol am yr arholiadau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o farciau mae'r myfyrwyr yn eu cyflawni ar bob cwestiwn

parhad...

unigol ac awgrym o ble y gellid pennu ffiniau graddau i gyflawni deilliannau cyffredinol tebyg i arholiadau y llynedd. Mae'r pwyllgor yn defnyddio'r math hwn o dystiolaeth er mwyn helpu i lywio ei benderfyniadau, yn enwedig pan fydd newidiadau i gymwysterau.

Pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno, mae myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn debygol o ennill marciau is na myfyrwyr a safodd yr hen arholiadau, lle'r oeddent yn fwy cyfarwydd â nhw. Mae'r pwyllgor dyfarnu yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddo i nodi pa addasiad sydd ei angen i ganiatáu ar gyfer yr effaith hon. Pan geir tystiolaeth, mae ffiniau graddau yn debygol o gael eu gostwng er mwyn gwneud iawn am y gostyngiad ym mherfformiad y myfyrwyr hynny sy'n sefyll arholiadau newydd.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus, mae'r pwyllgor dyfarnu yn argymell y marc isaf sydd ei angen ar gyfer pob gradd i sicrhau bod y safonau gofynnol ar gyfer eleni yr un peth ag ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Yna mae'r bwrdd arholi yn cynnal gwiriadau ansawdd i sicrhau bod y pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac y gellir cyfiawnhau'r penderfyniadau o ran ffiniau graddau. Yna caiff y ffiniau graddau terfynol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan swyddog cyfrifol y bwrdd arholi. Yna mae'r bwrdd arholi yn prosesu'r ffiniau graddau hyn ac yn cyfrifo'r radd y mae pob myfyriwr wedi'i chyflawni.

Mae'r broses hon yn golygu y dylai myfyriwr sydd wedi perfformio i'r un lefel gael yr un radd, p'un a wnaeth eistedd yr arholiad eleni neu y llynedd. Pan gaiff yr arholiadau eu sefyll yng Nghymru, goruchwylir y broses gennym ni, Cymwysterau Cymru. Pan gaiff yr arholiadau eu sefyll ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, goruchwylir y broses ar y cyd gan y rheoleiddiwr cymwysterau ym mhob gwlad.

## Am ragor o wybodaeth.....

Mae gan bob bwrdd arholi wybodaeth ac animeiddiadau defnyddiol ar eu gwefannau sy'n rhoi manylion pellach am y broses hon.

Rhagor o wybodaeth:
www.cymwysteraucymru.org
E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
Ff: 0333 077 2701
@cymwysterau_cym